Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Sepsis

17 Hydref 2017

12.15-13.15

Yn bresennol:

Angela Burns (Cadeirydd), Terence Canning (Ysgrifenyddiaeth), Janet Finch Saunders AC, Michael Bryan, Peter Wong, Becky Dayley (swyddfa Julie Morgan), Richard Cole (Cadeirydd Sioe Penfro/wedi goroesi sepsis), Mr a Mrs Steve a Bernie Day (merch wedi marw), Jane Carpenter, Rob Carpenter, Dr Paul Morgan, Tracey Laight (Ymddiriedolaeth Sepsis y DU/wedi goroesi sepsis), Vanessa Jones (Nyrs)

- Agorwyd y cyfarfod gydag AB yn croesawu pawb i'r cyfarfod ac yn nodi'r Agenda.

- Gofynnodd Jane Carpenter i gyfarch y cyfarfod a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae ei gwellhad yn mynd rhagddo ers i'r grŵp glywed ganddi ddiwethaf.

- Cynigiodd dioddefwyr eraill eu straeon personol o gael sepsis. Dywedodd Mr a Mrs Day wrth y grŵp am sut y gwnaethant golli eu merch Rachel o'r clefyd yn ddiweddar.

- Rhoddodd AB y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y gwaith a wnaethpwyd i geisio llunio proffil o sut y mae meddygfeydd meddygon teulu yn adnabod sepsis ac yn mynd i'r afael ag ef. Nodwyd y lefel siomedig o ran ymateb. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

- Pwysleisiodd AB yr angen i gael canlyniadau pendant gan y grŵp a chafwyd trafodaeth ynghylch beth yr hoffem ei weld yn digwydd. Cytunwyd y byddai is-grŵp yn cyfarfod yn cynnwys TC, AB, PM ac yn adrodd yn ôl i'r grŵp gyda chamau y cytunwyd arnynt.

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y Flwyddyn Newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25